**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 17 Mai 2023 (9:30 – 15.30), Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwyr:** | Dr Aled Eirug (Cadeirydd)<br>Ann Beynon<br>William Callaway<br>Nia Elias<br>Rhys Evans<br>John Hayes<br>Meri Huws<br>Yr Athro Anwen Jones<br>Pedr ap Llwyd |
| **Cyflwyniad:** | Alan Jones (Llywodraeth Cymru) (Eitem 5)<br>Bethan Webb (Llywodraeth Cymru) (Eitem 5) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)<br>Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu)<br>Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)<br>Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)<br>Rebecca Williams (Rheolwr Academaidd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Nia Brown<br>Angharad Roberts<br>Llinos Roberts<br>Yr Athro Enlli Thomas |

**Cofnodion Cyfarfod Strategol 17 Mai 2023**

## 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Dim | | |
| 2.2 | Dim | | |

## 3. Eitem 3 – Penodi aelod i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd a chadarnhawyd argymhelliad i benodi John Hayes yn ffurfiol fel aelod o'r Bwrdd am bedair blynedd yn dilyn gohebiaeth yr Ysgrifennydd at yr aelodau ar 26 Ebrill 2023. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymunodd John Hayes yn y cyfarfod. | | |

## 4. Eitem 4 – Cynghori'r Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Cyflwynwyd papur gan y Prif Weithredwr yn amlinellu cyngor cyfreithiol Gwion Lewis CB ar ddynodiad y Coleg fel y corff i gynghori'r Comisiwn ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.<br>Nodwyd y cyngor cyfreithiol yn Atodiad A. | | |
| 4.2 | Trafodwyd rhai materion a chytunwyd ar gamau gweithredu. | Cytunwyd i bwyntiau gweithredu 5.1 a 5.2 yn y papur, ond gan gryfhau'r geiriad i gynnwys 'i weddnewid y berthynas' yn hytrach na 'mynd tu hwnt i'r berthynas'<br>Bydd IM yn agor trafodaeth ar y camau nesaf mewn cyfarfod cychwynnol anffurfiol gyda'r ymgeisydd a ffafrir ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Yn dilyn gwrandawiad yn y pwyllgor seneddol disgwylir i'r penodiad hwnnw gael ei gadarnhau yn fuan.<br>Cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod mis Mehefin y Bwrdd, pan disgwylir y bydd y dynodiad wedi'i wneud, ac, o bosibl. aelodau'r Comisiwn wedi'u penodi. | Yn syth<br>23 Mai<br>28 Mehefin |

## 5. Eitem 5 – Cyflwyniad Swyddogion Is-Adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ymunodd Bethan Webb ac Alan Jones yn y cyfarfod. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Rhoddwyd cyflwyniad gan Swyddogion Is-Adran y Gymraeg ar brif amcanion y Papur Gwyn. | | |
| 5.2 | Holwyd nifer o gwestiynau | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Bethan Webb ac Alan Jones y cyfarfod. | | |

### 6. Eitem 6 – Ymateb y Coleg i'r Papur Gwyn ar Addysg Gymraeg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Cyflwynwyd ymateb ddrafft y Coleg i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Papur Gwyn ar gyfer Bil Addysg Gymraeg gan y Prif Weithredwr. | | |
| 6.2 | Trafodwyd yn helaeth a chytunwyd ar ymateb swyddogol y Coleg i'r ymgynghoriad. | Llunio drafft terfynol a'i rannu gyda'r Bwrdd cyn cyflwyno. | Dyddiad cau'r ymgynghoriad: 16 Mehefin |
| | | Cyflwyno cynllun cychwynnol ar y cyd gyda'r Ganolfan i gyfarfod nesaf y Bwrdd. | 28 Mehefin |
| | | Cyflwyno papur yn amlinellu gwaith y Coleg ym maes AGA i gyfarfod nesaf y Bwrdd. | 28 Mehefin |
| | | Llunio cytundeb cydweithio gyda'r Ganolfan. | I'w drafod gan y prif weithredwyr. |

### 7. Eitem 7 - Cyfarfod nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf:<br>• 28 Mehefin 2023, Coleg Merthyr | | |
| 7.2 | Diolchwyd y cyfieithwyr ar y pryd. | | |